

NI YW TÎM ABER



WE ARE TEAM ABER

YN Y RHIFYN HWN:

- Y DIWEDDARAF GAN Y SWYDDOGION
- RYGBI MERCHED
- DADLAU
- SUPERTEAMS
- REFRESHERS
- ZONE CHWARAEON A CHYMDEITHASAU
- WYTHNOS MYFYRWYR YN GWIRFODDOLI
- THIS GIRL CAN
- ETHOLIADAU'R SWYDDOGION
- VARSITY
- UMABER YN DATHLU
- ABER DOGS
- DYDDIADAU DEF-NYDDIOL

ISSUE 4: JANUARY 2018

Y DIWEDDARAF GAN Y SWYDDOGION



2019 hapus! Gobeithio cawsoch chi i gyd wyliau Nadolig da a'ch bod chi'n barod am y semester nesaf. Neges glou yw hon i ddweud da iawn am yr hyn rydych chi wedi'i gyflawni hyd yn hyn a daliwch ati! Gobeithio y bydd

hyd yn oed mwy o fyfyrwyr yn cymryd rhan yn ein grwpiau ar ôl Ail Wythnos y Glas, a chofiwch dyw hi byth yn rhy hwyr i ymuno! Dwi hefyd yn gobeithio eich bod chi'n edrych ymlaen at y digwyddiadau sydd i ddod y semester hwn gymaint ag ydw i. Ymhlith y digwyddiad bydd Mae'r Ferch Hon yn Gallu, Superteams a'r Rhyngolgam-pau, ac os nad ydych chi'n gwybod beth yw'r digwyddiadau hyn, dyma'r flwyddyn i gymryd rhan! Mae croeso i chi anfon e-bost ataf i ynglŷn@aber.ac.uk ag unrhyw gyfleoedd i wirfoddoli yn y digwyddiadau hyn fel ffordd o gymryd rhan! umcyfleoedd@aber.ac.uk Pob lwc gyda'r arholiadau a gwelaf i chi i gyd yn Ail Wythnos y Glas!

RYGBI MERCHED

Ar 7 Rhagfyr, cymerodd Rygbi'r Menywod UMAber ran mewn taith 874 milltir ar 6 peiriant seiclo, o John O'Groats i Lands End. Cymerodd hyn gyfanswm o 8 awr a 27 munud i ni, gyda chymorth gan dros 20 o ferched a'n hyfforddwyr. Ar hyn o bryd rydyn ni wedi codi dros £1200 i'w rannu'n gyfartal rhwng Ambiwylans Awyr Cymru a'r RNLI - dewiswyd y rhain am resymau personol iawn. Roedd un o aelodau ein pwyllgor mewn damwain car ychydig flynyddoedd yn ôl, a heb gymorth y ddau sefydliad yma, mae'n debygol iawn na fyddai hi yma gyda ni heddiw. Mae'r elusennau hyn yn gweithio mor galed o ddydd i ddydd, ac yr ydym yn falch o gael y cyfle i wneud ein rhan i'w helpu, a dweud diolch am bopeth maen nhw wedi'i wneud!

Rydym mor ddiolchgar i bawb a gymerodd ran, a'r holl gyfraniadau a dderbyniwyd! Mae'r dudalen JustGiving yn dal i fod ar agor, felly os byddech chi mor garedig, byddem yn gwerthfawrogi unrhyw rodd; <https://www.justgiving.com/crowdfunding/auwrcycle874miles>





Cynhaliwyd Pencampwriaethau Dadlau i Ddechreuwy'r Cymru ddydd Sadwrn 17 Tachwedd eleni. Mae Pencampwriaethau'r Dechreuwy'r yn gystadleuaeth a gynhelir gan grŵp a elwir yn Gyngor Dadlau Prifysgol Cymru (CDPC), sy'n trefnu digwyddiadau dadlau ar y cyd yng Nghymru; mae gan Aberystwyth sedd ar y cyngor hwn. Eleni, anfonodd Aberystwyth 8 o Ddadleuwyr mewn 4 o dimau a 3 beirniad. Mae'r gystadleuaeth i Ddechreuwy'r ar agor i'r rheiny sydd yn eu blwyddyn gyntaf o ddadlau yn y brifysgol yn unig, ond nid yw hynny'n newid y ffaith ei bod yn gystadleuaeth genedlaethol. Bob blwyddyn, mae CDPC yn cynnal 2 gystadleuaeth genedlaethol, sef Dechreuwy'r Cymru a'r Mace Cymreig.

O'r herwydd, mae'r Undeb Ddadlau yn falch o gyhoeddi bod 2 o'n timau a 2 o'n beirniaid wedi cyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth eleni; yn wir, llwyddodd Aberystwyth i ennill y categori ar gyfer dechreuwy'r eleni - y tîm buddugol oedd Alex McCreadie a Josh Else. Hoffai'r Undeb ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth a gwneud ein buddugoliaeth yn bosib.



Er bod Cymru'n fach, mae'n denu llawer o sylw ym myd Dadlau; bob blwyddyn mae'r Undeb Ddadlau yn cynnal cystadleuaeth Agored Aberystwyth, sydd wedi estyn croeso i amrywiaeth eang o Brifysgolion yn y gorffennol, gan gynnwys Abertawe a Rhydychen. O ganlyniad, mae'r Undeb Ddadlau'n hynod o falch o'r fuddugoliaeth a gawsom eleni, gan ei bod yn un ffordd arall i ni ddangos i bawb, dim ond oherwydd ein bod ar gyrion Cymru nid yw hynny'n golygu y gallwn ni gael ein hanwybyddu.

Os oes unrhyw un â diddordeb mewn dod i unrhyw gystadlaethau yn y dyfodol, dewch i'n cyfarfodydd wythnosol, bob nos Iau am 7pm yn A14; sy'n aildechrau ar Ionawr 31ain. Byddwn ni'n dod at ein gilydd i gael hwyl a dadlau, ond hefyd byddwn yn eich hyfforddi mewn amrywiaeth eang o sgiliau a fydd yn eich helpu chi yn y maes academiaidd a llai academiaidd.

Mwyhewch y Dadlau!



SUPERTEAMS



Os na wyddech chi'n barod, Superteams yw PRIF ddigwyddiad y flwyddyn. Fe'i cynhelir gan Undeb y Myfyrwyr, a bydd myfyrwyr yn trefnu eu hunain yn dимоedd o 10 er mwyn cystadlu mewn amryw enfawr o weithgareddau a chwaraeon dros y penwythnos. Paratowch eich hun ar gyfer tynnu coes, chwys a llawer o fwd!

Bydd ein digwyddiadau'n amrywio o bêl-fasged i brofion blîp, pêl-droed i gwrs rhwystrau, felly dydy'r penwythnos hwn ddim yn addas i'r gwangalon. Hefyd, mae'n gyfle i'r rheiny sydd ddim yn ymwneud â chlybiau chwaraeon i ddangos eu medrau athletaidd. Mae'n bosib hyd yn oed cael eu sgowntio! Yr unig ofynion yw bod rhaid i chi fod yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn fodlon gwneud unrhyw beth dros eich tîm... dim pwysedd felly!

Cofrestrwch eich tîm ar dudalen we Undeb y Myfyrwyr am 9am ar 25 Ionawr 2019 i osgoi cael eich siomi – llynedd gwerthodd y rhain allan mewn LLAÏ NA munud, felly sicrhewch eich bod chi wedi paratoi a bod gennych chi'r holl wybodaeth angenrheidiol wrth law.

Am ragor o wybodaeth ynglyn â'r digwyddiad, cysylltwch â:
Lucie Gwilt :(Cydllynydd Chwaraeon) leg13@aber.ac.uk

REFRESHERS'

Mae'n gyfnod y Glas unwaith eto!

Rydym yn teimlo'n gyffrous nawr bod ein Ail Wythnos y Glas yn dechrau ddydd Llun, 28 Ionawr.

Ffair Fasnach (28ain)

Yn llawn pethau am ddim, talebau a gwybodaeth

Ffair Swyddi Rhan-amser a Gwirfoddoli (29ain)

Ffair Cymdeithasau (30ain)




Darganfyddwch eich angerdd

Ffair Chwaraeon (31ain)

Chwaraewch y gêm, ymunwch â #TîmAber

10am - 3pm, Undeb y Myfyrwyr


Fe welwn ni chi yno!





ZONE CHWARAEON A CHYMDEITHASAU

7YDD CHWEFROR 2019



Bydd cyfle I drafod pob agwedd ar gyfranogi, gan gynnwys grantiau, hyfforddi, cyfleusterau a chodi arian, yn ogystal a'n digwyddiadau mawr fel y Rhyngolgampau a Superteams.



- Cyfarfodydd hamddenol ac anffurfiol I bobl sy'n ymwneud a'r un maes
- Lle I sgwrsio am y pethau sy'n eich poeni chi
- Cyfle I rannu syniadau
- Cewch adborth ar syniadau I'w cyflwyno
- Cewch gyfarfod a'ch swyddogion llawn amser a gwirfoddol



WYTHNOS MYFYRWYR YN

GWIRFODDOLI



11-15 CHWEFROR 2019



Bydd Wythnos Myfyrwyr yn Gwirfoddoli 2019 yn cael ei chynnal rhwng 11 a 17 Chwefror. Dyma gyfle i ni ddathlu gwirfoddolwyr UMABer, yn ogystal â rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr wirfoddoli mewn digwyddiadau a gweithgareddau dyddiol fydd yn cael eu cynnal gydol yr wythnos!



THIS GIRL CAN

18TH-22ND FEBRUARY 2019

Rhwng 18 Chwefror – 24 Chwefror 2019 yn Undeb Myfyrwyr Aberystwyth, byddwn ni'n cynnal wythnos 'This Girl Can'. Rydyn ni'n gobeithio amlygu a dathlu menywod yn y brifysgol yn ogystal â'r gymuned ehangach. Mae digon wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos gan gynnwys, Ffair This Girl Can', sesiynau chwaraeon agored, perfformiadau a mwy.



OFFICER ELECTIONS

Mae myfyrwyr yn arwain pob agwedd ar Undeb y Myfyrwyr. Bob blwyddyn, rydyn ni'n defnyddio etholiadau democrataidd i helpu i benderfynu pwy ddylai siarad a gweithio ar eich rhan ar amrywiaeth o bethau tra byddwch chi'n fyfyrwr ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Gall pob myfyriwr sydd wedi cofrestru sefyll a phleidleisio ar gyfer unrhyw rôl sy'n berthnasol iddyn nhw.

Etholiadau'r Swyddogion

Cyfnod sefyll yn dechrau: Dydd Mawrth 1 Ionawr 2019

Cyfnod sefyll yn dod i ben: 12pm ddydd Mawrth 26 Chwefror 2019

Pleidlais yn dechrau: 9am ddydd Llun 11 Mawrth 2019

Pleidlais yn gorffen: 3pm ddydd Gwener 15 Mawrth

Canlyniadau: 8pm ddydd Gwener 15 Mawrth yn adeilad Undeb y Myfyrwyr





Cynhelir y Rhyngolgampau eleni fis Mawrth mewn amryw o leoliadau ar draws Aberystwyth.

Bydd cannoedd o fyfyrwyr o fwy na 30 o dimau chwaraeon cystadlu yn y twrnamaint am Dlws Rhyngolgampau Aber vs Bangor. Bydd clybiau Tîm Aber geisio ennill y Tlws Chwaraeon ar ôl colli 4 blynedd yn olynol ers 2014... dim pwysedd felly!

Ddim yn dilyn chwaraeon? Mae cystadleuaeth Rhyngolgampau Aber vs Bangor yn ffordd wych o gyfranogi a bod yn rhan o Dîm Aber, hyd yn oed os nad ydych chi'n gwybod y gwahaniaeth rhwng camsefyll a chamdrafnod. Mae'r awyrgylch ar y diwrnod yn rhywbeth allwch chi DDIM ei fethu, wrth i filoedd o fyfyrwyr floeddio eu cefnogaeth i'r naill ochr a'r llall.

#RhyddhauYDdraig

Pryd: Dydd Sadwrn 30ydd o Mawrth 2019

Lle: Prifysgol Aberystwyth

Ymunwch â hwyl Tîm Aber ac archebwch eich stash ein hun ar gyfer Varsity, yn barod am y gystadleuaeth flynyddol rhwng Aber a Bangor.

Cewch ragarchebu y naill becyn ar-lein yn fuan i osgoi cael eich siomi - dim ond ychydig sydd mewn rhai meintiau - a'u casglu yn Lansiad Stash Varsity. Bydd y Lansiad yn digwydd ddydd Iau 14 Mawrth ym UM Picturehouse rhwng 3pm a 5pm. Ar ôl hyn, bydd modd prynu / casglu'r pecynnau o ddesg Derbynfa'r Undeb.



UMABER YN DATHLU

Bob blwyddyn yn ystod wythnos UMABer Yn Dathlu, byddwn ni'n dathlu llwyddiant a chyraeddiadau ein myfyrwyr a'n staff yma ym Mhrifysgol.

GWOBRAU'R CYMDEITHASAU

Mae gwobrau UMABer yn Dathlu Cymdeithasau yn ffordd allweddol o gefnogi arfer gorau yn Aberystwyth drwy dynnu sylw at ymroddiad eithriadol myfyrwyr i'w Cymdeithas. Mae hefyd yn caniatáu i ni ddathlu'r hyn mae 'Tîm Aber' wedi'i gyflawni a chydabod cyfraniadau sylweddol yn gymdeithasol, yn gy-stadleuol ac yn broffesiynol.

Helpwch ni i gydnabod aelodau unigol o gymdeithasau a chymdeithasau am eu:

- Ymroddiad
- Talent Eithriadol
- Llwyddiant Cystadleuol
- Gwaith Elusennol
- Datblygiad Parhaus



Bydd y cyfnod enwebu rhwng 1 Ionawr - 1 Mawrth

11 gwobr (ynghyd â 25 lliwiau Prifysgol Aber)

1 noson o ddathlu

Enwebwch ar-lein ar www.umaber.co.uk/yndathlu



UMAber yn dathlu

DATHLU CHWARAEON

Mae gwobrau UMAber yn Dathlu Chwaraeon yn ffordd allweddol o gefnogi arfer gorau yn Aberystwyth drwy dynnu sylw at ymroddiad eithriadol myfyrwyr i'w Clwb. Mae hefyd yn caniatáu i ni ddathlu'r hyn mae 'Tîm Aber' wedi'i gyflawni a chydabod cyf-raniadau sylweddol yn gymdeithasol, yn gystadleuol ac yn broffesiynol.

Helpwch ni i gydnabod ein hunigolion a'n clybiau chwaraeon am eu:

- Talent Eithriadol
- Ysbryd Chwarae Teg
- Hyfforddiant
- Ymroddiad
- Llwyddiant Cystadleuol




Bydd y cyfnod enwebu rhwng 1 Ionawr - 1 Mawrth

10 gwobr (ynghyd â 25 lliwiau Prifysgol Aber)

1 noson o ddathlu

Enwebwch ar-lein ar www.umaber.co.uk/yndathlu



ABER DOGS



Bu sesiwn y Cŵn Tywys yn llwyddiant ysgubol! Cawson ni bre-senoldeb gwych a dysgom ni gymaint am y cŵn a'r hyfforddiant mae rhaid iddyn nhw ei gael, yn ogystal â phwysigrwydd mawr y cŵn eu hunain. Ar ôl y sgwrs, cawson ni gwrdd â'r cŵn ac roedd y bobl a'r cŵn yn fwy na bodlon eu byd.

Hefyd, llwyddom ni i godi £123.88 at elusen y Cŵn Tywys, felly diolch i bawb gyfrannodd!

Diolch i Gŵn Tywys Ceredigion am neilltuo amser i gael sgwrs gyda ni ac i ni anwesu'r cŵn, a diolch i bawb fynychodd y digwyddiad.



DYDDIADAU DEFNYDDIOL

1AF IONAWR: Cyfnod Sefyll yn agor (Etholiadau'r Swyddogion)

25AIN IONAWR: Gwerthiant Superteams yn mynd yn fyw

7FED CHWEFROR: Parth Chwaraeon a Chymdeithasau

22AIN-24AIN CHWEFROR: Superteams (Menywod)

26AIN CHWEFROR: Cyfnod Sefyll yn dod i ben (Etholiadau Swyddogion)

1AF-3YDD MAWRTH: Superteams (Dynion)

7FED MAWRTH: Parth Chwaraeon a Chymdeithasau

11EG-15FED MAWRTH: Pleidlais (Etholiadau'r Swyddogion)

25AIN MAWRTH: Cyfnod Sefyll yn agor (Clybiau a Chymdeithasau)

30AIN MAWRTH: Rhyngolgampau Farsiti





3YDD EBRILL: Gwobrau Chwaraeon

5ED EBRILL: Gwobr Cymdeithasau

7FED EBRILL: Cyfnod Sefyll yn dod i ben (Clybiau a Chymdeithasau)

29AIN EBRILL-3YDD MAI: Pleidlais (Clybiau a Chymdeithasau)

4YDD-5ED MAI: 7 Bob Ochr Aber



MAE'R CYLCHLYTHYR EICH ANGEN CHI!

Oes gen eich clwb neu gymdeithas unrhyw beth diddorol wedi ei drefnu y mis yma? Efallai wedi cystadlu mewn gêm BUCS anhygoel?

Ydych chi'n meddwl y dylai eich clwb neu gymdeithas gael ei gynnwys yn adran Mewn Ffocws y rhifyn nesaf? Oes gennych chi rhywbeth yr hoffwch ei rannu?

Os felly, cysylltwch â: Becca, rlb12@aber.ac.uk

CYSYLLTU Â CHYFLEOEDD:

LOUISA: suopportunities@aber.ac.uk 01970 621755

GAV: gaa@aber.ac.uk 01970621718

LUCIE: leg13@aber.ac.uk 01970 621754

BECCA: rlb12@aber.ac.uk 01970 621745

RHIFAU AC E-BYST DEFNYDDIOL ERAILL:

YMGYNGHORYDD MYFYRWYR:

union.advice@aber.ac.uk

DERBYNFA'R UNDEB: suhstaff@aber.ac.uk

SWYDDFA CYLLID: sufstaff@aber.ac.uk

SPORTS CENTRE: 01970 622280

#TIMABER

